Dyddiad: 11 Tachwedd 2026

Annwyl

ATISN 26-0042

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 15/10/26 (Atodiad 1).

Ein hymateb

Yn dilyn fy asesiad cychwynnol, rwy'n amcangyfrif y byddai'n costio mwy na'r terfyn addas a nodwyd yn y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 i ateb eich cais. Y terfyn addas a bennwyd ar gyfer y llywodraeth ganolog yw £600. Dyma amcangyfrif o'r hyn y byddai'n ei gostio os yw'n debygol o gymryd mwy na 24 awr i bennu a oes gennym yr wybodaeth, dod o hyd i'r wybodaeth, ei hadalw a thynnu'r rhannau perthnasol ohoni.

Dim ond rhan o'r pedwerydd darn o'ch cais sy'n mwy na'r terfyn addas. Mae'r Awdurdodau Lleol yn darparu adroddiadau sy'n cynnwys data perthnasol. Mae rhain o tri math:

- Adroddiadau Adolygu Blynyddol Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2021-2026: 110 adroddiad. Os amcangyfrifaf 9 munud i adolygu pob un adroddiad (o leiaf 35 tudalen) – (110 x 9 munud/60 = 16.5 awr)
- Adroddiadau Monitro Grant Trochi Hwyr Cyfrwng Cymraeg 2021-2024: 110 adroddiad. Os amcangyfrifaf 5 munud i adolygu pob un adroddiad (o leiaf 4 tudalen) – (110 x 5 munud/60 = 9.16 awr)
- Adroddiad Terfynol Grant Trochi Hwyr Cyfrwng Cymraeg 2022-2025: 22 adroddiad. Os amcangyfrifaf 10 munud i adolygu pob un adroddiad (o leiaf 8 tudalen) – (22 x 10 munud/60 = 3.6 awr)

Felly bydd yr amser wedi cwrdd â'r terfyn – o leiaf 29.26 awr.

Mae'n bosibl yr hoffech fireinio eich cais drwy ddatgan yn fwy penodol pa wybodaeth yr hoffech ei chael, gynnwys unrhyw ddyddiadau, gyfnod amser neu math adroddiad sy'n berthnasol i'r wybodaeth.

Oherwydd gall gweddill o'r cais cael eu cwblhau heb bod yn fwy na'r terfyn, rydw i wedi atodi tablau data ac adroddiad i ateb gweddill y cais.

Atodir yw'r data i ateb adran 1 a rhan o adran 2 eich cais rhyddid gwybodaeth. Mae'r ateb i adran 2 yn rhannol achos nid yw'r wybodaeth grŵp blwyddyn y disgyblion wrth ymuno â'r ddarpariaeth trochi hwyr gennym.
Nid yw'r wybodaeth gennym chwaith ar gyfer adran 3. Nid ydym yn mesur dilyniant, cadw neu fonitro canlyniadau mewn perthynas a darpariaeth drochi hwyr. Dwi wedi nodi sut rydym yn monitro gwariant y grant trochi hwyr uchod.

Ar gyfer adran 4, heblaw am yr adroddiadau rwy'n cyfeirio at uchod, mae'r adroddiadau ar gael yma:
Cyrchddulliau a dulliau effeithiol mewn addysg drochi: Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth | LLYW.CYMRU
Trochi hwyr a darpariaeth ieithyddol ddwys: adolygiad cwmpasu cyflym | LLYW.CYMRU
Addysg cyfrwng Cymraeg drwy drochi hwyr: mapio'r ddarpariaeth yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Rwy'n hefyd yn atodi papur mewnol ar trochi hwyr.

Y camau nesaf

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
4th Floor
No. 3 Circle Square
5 Hawkshaw Street
Manchester
M1 7BL

Gwefan: www.ico.org.uk

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Atodiad 1

1. Dilyniant o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i addysg uwchradd cyfrwng Saesneg

Nifer a chanran y disgyblion a:

- Fynychodd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac a gofrestrwyd wedyn mewn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg;
- Fynychodd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac a gofrestrwyd wedyn mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.
-

Os yw'r data ar gael, hoffwn eu derbyn:

- Ar lefel genedlaethol;
- Yn ôl awdurdod lleol; ac
- Yn ôl blwyddyn garfan.

2. Darpariaeth drochi hwyr

Ar gyfer pob blwyddyn academaidd sydd ar gael, hoffwn gael:

- Nifer y disgyblion a fynychodd ddarpariaeth trochi hwyr (gan gynnwys Canolfannau Trochi Cymraeg neu ddarpariaeth gyfwerth);
- Yr awdurdod lleol lle darparwyd y gwasanaeth;
- Grŵp blwyddyn y disgyblion wrth ymuno â'r ddarpariaeth;
- A oedd y ddarpariaeth ar gyfer y sector cynradd neu uwchradd.

3. Canlyniadau ar ôl mynychu darpariaeth drochi hwyr

Os cedwir y wybodaeth, hoffwn gael data sy'n dangos cyrchfan addysgol disgyblion ar ôl mynychu darpariaeth drochi hwyr, gan gynnwys:

- Nifer a chanran y disgyblion a aeth ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg;
- Nifer a chanran y disgyblion a aeth ymlaen i addysg cyfrwng Saesneg;
- Unrhyw fesurau dilyniant, cadw neu fonitro canlyniadau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â darpariaeth drochi hwyr.

4. Dadansoddiadau ac adroddiadau cysylltiedig

Hoffwn gael copïau o unrhyw adroddiadau, dadansoddiadau ystadegol, papurau briffio, gwerthusiadau neu grynodebau heb eu cyhoeddi sy'n ymwneud â:

- Ddilyniant rhwng addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg;
- Colled (attrition) o addysg cyfrwng Cymraeg;
- Canlyniadau sy'n gysylltiedig â darpariaeth drochi hwyr; neu
- Ffactorau sy'n dylanwadu ar gadw dysgwyr o fewn addysg cyfrwng Cymraeg.